# Offeryn 2: Gofal Sylfaenol mewn Lleoliad; Gwasanaethau Iechyd Cynhwysiant

Offeryn yw hwn i gefnogi'r sawl sy'n gweithio mewn gofal sylfaenol, neu'n gysylltiedig â gofal sylfaenol, i ddarparu gwasanaethau iechyd cynhwysiant.

| | |
|---|---|
| **Arweinydd Gwasanaeth** | |
| Pa bartneriaid, gwasanaethau a/neu unigolion allwch chi ymgysylltu â nhw ar y dechrau? Gweler Atodiad 1 | |

## Deall eich Poblogaeth.

### Pwy yw eich poblogaeth? & Beth yw eu hanghenion?

| | |
|---|---|
| **Pwy yn eich clwstwr o boblogaeth all fod yn gymwys ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cynhwysiant, a faint?** | Mae poblogaethau cymwys yn cynnwys pobl sydd ag anfanteision difrifol a niferus, sy'n profi allgau cymdeithasol ac anghydraddoldebau iechyd e.e.<br>1. Pobl sy'n profi digartrefedd, neu mewn peryg o wynebu digartrefedd, gan gynnwys:<br>- Y sawl sydd mewn llety dros dro neu lety ansefydlog,<br>- Pobl ifanc neu'r sawl sy'n gadael gofal ac sydd mewn perygl o fod yn ddigartref..<br>2. Pobl sydd mewn cysylltiad rheolaidd â'r system cyfiawnder troseddol.<br>3. Pobl sy'n ceisio lloches, ffoaduriaid, gweithwyr mudol bregus ac ymfudwyr heb eu dogfennu neu wedi'u masnachu.<br>4. Pobl sy'n gwneud gwaith rhyw.<br>5. Pobl Roma, Sipsiwn a Theithwyr |
| **Ydych chi'n gwybod sut i adnabod eich poblogaeth?** | Gall data eich helpu i ddeall eich poblogaeth ac adnabod gwahanol grwpiau poblogaeth, a gellir eu defnyddio hyn i gefnogi'r gwaith o gynllunio gwasanaethau iechyd cynhwysiant. |

| | |
|---|---|
| | Gellir cael gafael ar ddata ar gyfer pob ardal ar y dudalen cymorth ac adnoddau cynllunio iechyd cynhwysiant – mae'r data yn gyfyngedig ac yn anghyflawn, rydym yn cyflwyno'r hyn sydd ar gael yn genedlaethol<br><br>***Pwysig: dylid ychwanegu'r data hyn drwy gynnal sgyrsiau â'r gymuned, y trydydd sector a phobl sydd â phrofiad bywyd.*** |
| **Ydych chi'n gwybod eu hanghenion iechyd?** | Mae grwpiau sy'n agored iawn i niwed yn debygol o brofi anghenion iechyd a lles niferus sy'n digwydd ar yr un pryd. Wrth ddatblygu gwasanaethau, cofiwch bob agwedd ar ofal iechyd:<br><br>• Marw'n gynt a phrofi iechyd gwael yn gynharach mewn bywyd<br>• Yn sylweddol fwy tebygol o fod yn agored i drawma a/neu drais<br>• Clefydau cronig a chanser yn ogystal â chlefydau heintus<br>• Nifer isel yn cael eu himiwneiddio a'u sgrinio<br>• Risg sylweddol o salwch ac anhwylderau iechyd meddwl gan gynnwys PTSD<br>• Canlyniadau cyn-enedigol ac ôl-enedigol gwaeth.<br><br>*Gellir dod o hyd i grynodebau o dystiolaeth iechyd (yn dod yn fuan) a'r adnoddau diweddaraf sy'n dangos* data a gwybodaeth - Gofal Sylfaenol Un (gig.cymru) |
| **Ydych chi'n gwybod pa anghenion eraill y mae angen eu hystyried?** | Mae unigolion sy'n profi anfanteision niferus yn wynebu heriau wrth geisio manteisio ar ofal iechyd sylfaenol. Dylai unrhyw wasanaeth iechyd cynhwysiant ystyried:<br><br>• Mynediad at wasanaethau<br>• Rhwystrau i dderbyn gwasanaethau<br>• Anghenion ieithyddol a diwylliannol<br>• Profiadau blaenorol cleifion<br>• Penderfynyddion cymdeithasol eraill a all fod yn effeithio ar iechyd a lles cyffredinol unigolion (Tai, cyflogaeth ac ati) |

## ☐ Pwynt gwirio

O ystyried yr uchod, a allwch chi ddisgrifio'r gwasanaeth iechyd cynhwysiant sydd ei angen i ddiwallu anghenion eich poblogaeth?

## Sut ydych chi am fynd i'r afael â'r angen & pwy arall sy'n rhan o'r gwaith

| | |
|---|---|
| **Beth sydd angen i chi ei wybod i ddatblygu gwasanaethau iechyd cynhwysiant?** | Mae'r math o wasanaeth y bydd ei angen yn dibynnu ar:<br><br>• **Y niferoedd**<br>Faint o unigolion sy'n byw yn eich ardal sy'n profi anfanteision niferus ac allgau cymdeithasol<br>Faint o grwpiau poblogaeth cymwys sydd yn eich ardal leol<br><br>• **Cymhlethdod**<br>A yw anghenion eich cleifion yn gymhleth, ac angen mwy o amser, adnoddau a gofal arbenigol?<br><br>Gweler Atodiad 1 Haenau o Wasanaethau Iechyd Cynhwysiant am ragor o wybodaeth |
| **Ydych chi'n casglu'r data sydd eu hangen?** | Ychydig iawn o ddata sydd ar gael ar gyfer grwpiau sy'n agored iawn i niwed. Mae casglu data yn hanfodol i ddeall yr angen lleol. Yn lleol, gallwch wella data trwy gytuno i gofnodi'r un data yn systematig ar draws ardaloedd clwstwr. Ystyriwch:<br><br>• Grwpiau agored iawn i niwed<br>• Demograffig<br>• Nodweddion gwarchodedig<br>• Yr angen iechyd |
| **Ydych chi'n ymwybodol o ba wasanaethau sydd ar gael yn lleol a/neu'n genedlaethol?** | Mae'n bwysig nodi, yn ddelfrydol, y byddai'r broses hon yn cael ei dechrau mewn cydweithrediad â phartneriaid ar draws yr ardal, gan gynnwys y trydydd sector, awdurdod lleol, a phobl sydd â phrofiad bywyd.<br><br>• Ydych chi wedi cynnwys partneriaid allweddol?<br>• Ydych chi wedi gwrando ar unigolion sydd â phrofiad bywyd<br>• Oes gennych chi ddigon o adnoddau?<br><br>Yr angen am weithlu: niferoedd a hyfforddiant<br><br>Gall y dolenni isod eich helpu i ddeall ac adnabod sut olwg sydd ar yr angen hwn yn lleol<br><br>• Cynllunio ar gyfer y gweithlu – Y Porth Cynllunio<br>• Cyfeiriadur Addysg a Hyfforddiant yn y Maes Iechyd Cynhwysiant |

| | |
|---|---|
| | Deall beth sydd eisoes ar gael<br>• Disgrifiad o'r gwasanaethau sy'n darparu Gofal Iechyd Sylfaenol i grwpiau sy'n agored i niwed ar draws Cymru<br>• Gweler Atodiad 2 Mapio Gwasanaethau |
| **Ydych chi'n gwybod pa wasanaeth a/neu unigolion sy'n allweddol?** | Ar draws y system glwstwr mae cyfleoedd i ymgysylltu, cydweithio a mabwysiadu dull amlddisgyblaethol o ddarparu gwasanaethau iechyd cynhwysiant<br><br>**Sefydliadau cydweithredol / clystyrau proffesiynol**<br>Collaboratives and clusters can provide local information and soft data and knowledge which can support the case for and development of inclusion health services that meet the needs of the local population.<br><br>**Gwasanaethau statudol**<br><br>Engage relevant services that are already working with your identified population group(s) e.g. Housing / probation / sexual health clinics / Health Visiting and Midwifery.<br><br>**Y trydydd sector**<br>Many Third Sector organisations will be working with and for vulnerable population groups and are key partners in service delivery as well as service development.<br><br>Gweler Atodiad 1 am ragor o wybodaeth. |
| **Ydych chi wedi gwrando ar unigolion sydd â phrofiad bywyd?** | Mae unigolion sydd â phrofiadau byw yn hanfodol i ddatblygu gwasanaethau hygyrch a phriodol. Dylech gynnwys y bobl rydych yn datblygu gwasanaethau ar eu cyfer.<br><br>Ystyriwch y gwahanol ddulliau hyn:<br><br>Mae **gwasanaethau a gaiff eu cydgynhyrchu** yn wasanaethau a ddatblygir mewn partneriaeth â chleifion a grŵp(iau) poblogaeth. Mae grwpiau cleifion yn cael eu cynnwys ar ddechrau'r gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth ac maent yn ymgysylltu'n llawn ac yn dylanwadu ar y broses gyfan.<br><br>Mae **cynnwys cleifion yn rhan** o'r gwaith o ddatblygu gwasanaeth yn golygu bod rhaid ystyried ac ymateb i lais a phrofiadau cleifion, ond gall y mewnbwn fod yn gyfyngedig, ac mae'r dull hwn yn debygol o fethu â chlywed llais y claf ar y cam cychwynnol ac wrth ddatblygu'r gwasanaeth.<br><br>Mae **adborth gan gleifion** yn rhoi cyfle i ddefnyddwyr gwasanaeth roi adborth ar brofiad unwaith y bydd gwasanaeth yn cael ei ddatblygu. |

| | |
|---|---|
| | Dylai'r dull hwn fod yn allweddol wrth werthuso gwasanaethau a dylai gael ei wneud ochr yn ochr â gwaith ymgysylltu arall â grŵp(iau) cleifion.<br><br>Gall **dulliau yn seiliedig ar leoliad** wrth ddatblygu gwasanaeth gefnogi datblygiad gwasanaeth gan roi ffocws ar asedau'r gymuned. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar y Porth Cynllunio ar gyfer Gofal Sylfaenol. |

## ☐ Pwynt gwirio

Pwynt gwirio: darllenwch y cerdyn rhybudd i nodi unrhyw gamau a allai gynyddu anghydraddoldebau iechyd.

| | |
|---|---|
| **Ydych chi wedi gwneud gwahaniaeth?**<br><br>**Sut gallwch chi fonitro neu werthuso eich gwasanaeth?**<br><br>**Sut allwch chi ddiffinio llwyddiant?** | Mae'r Porth Cynllunio, a'r tudalennau Monitro a Gwerthuso, yn darparu gwybodaeth ac adnoddau i helpu wrth fonitro a gwerthuso gwasanaethau.<br><br>Ystyriwch<br>☐ Sut byddwch chi'n gwybod a ydych chi wedi gwneud y newid roeddech chi eisiau ei wneud?<br>☐ Beth mae'r data y gwnaethoch eu casglu yn ei ddweud wrthych?<br>☐ A yw profiad eich claf wedi newid?<br>☐ A yw eich ymyriad wedi lleihau neu gynyddu anghydraddoldebau iechyd?<br>☐ Am ragor o gyngor ar ddiffinio a mesur llwyddiant, gweler Offeryn 3; Offeryn Asesu Tegwch Iechyd- Adolygu |

## ☐ Rhestr wirio

Dros y flwyddyn nesaf rydym yn ymrwymo i'r camau hyn (Defnyddiwch y gofod hwn i restru camau gweithredu gan ddilyn y dull SMART y gellir ei ddefnyddio i adlewyrchu camau yng ngwaith cynllunio clystyrau)

1.

2.

3.

4.

5.

# Atodiad 1 Cefnogi Dull o Weithio mewn Partneriaeth

Bydd datblygu perthnasoedd gwaith da gyda phartneriaid ar draws meysydd iechyd, gofal cymdeithasol a’r trydydd sector yn helpu gwasanaethau i gael eu datblygu ar y cyd, ac yn cefnogi llwybrau atgyfeirio a llinellau cyfathrebu hawdd:

Ystyriwch wahodd cydweithwyr o ystod o wasanaethau i ymgysylltu, gan gynnwys:

- Gwasanaethau cwnsela/seicoleg
- Timau Iechyd Meddwl Cymunedol
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Sylfaenol gan gynnwys gofal i'r rhai sydd â straen ôl-drawmatig cymhleth
- Gwasanaethau camddefnyddio sylweddau
- Gwasanaethau Clefydau Heintus gan gynnwys Twbercwlosis (TB)
- Iechyd rhywiol a chynllunio teulu
- Canolfannau cyfeirio ar gyfer ymosodiadau rhywiol
- Gwasanaethau gofal heb ei drefnu megis Unedau Argyfwng/Tu Allan i Oriau
- Gwasanaethau poen cronig
- Gwasanaethau Cyhyrysgerbydol
- Podiatreg
- Optometreg
- Dieteg
- Gofal Iechyd y Geg a Deintyddiaeth
- Iechyd Galwedigaethol
- Gwasanaethau ffisiotherapi yn seiliedig ar drawma
- Gwasanaethau bydwreigiaeth
- Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd
- Cydweithio â gwaith olrhain achosion, olrhain cysylltiadau, triniaeth gymunedol a mesurau iechyd cyhoeddus gan gynnwys TB, HIV, Hepatitis C
- Tîm Gofal Clwyfau
- Therapi Iaith a Lleferydd
- Gwasanaethau Hybu Iechyd (rhoi'r gorau i ysmygu, pwysau iach ac ati)

# Atodiad 2 Inclusion Health Service Tiers

### Haen 1

- Gofal Cyffredinol a ddarperir i bob claf trwy'r Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol prif ffrwd.
- Gwasanaethau sy’n hygyrch i bob grŵp cleifion yn yr ardal.
- Dylai gwasanaethau presennol a gwasanaethau sy'n datblygu ystyried gofal teg i bawb, a mynediad at ofal teg i bawb.

### Haen 2

- Mae Grwpiau Cynllunio Clwstwr neu Fyrddau Iechyd yn comisiynu gwasanaethau iechyd cynhwysiant.
- Mae gwasanaethau sydd eisoes wedi'u sefydlu yn cael eu haddasu i ddiwallu anghenion grwpiau ac unigolion cymwys.
- Dylid ystyried defnyddio llywiwr gofal a gwasanaethau i hwyluso gofal cydgysylltiedig.
- Mae gwasanaethau allgymorth wedi’u sefydlu sy'n targedu, yn nodi ac yn darparu gofal ar gyfer grwpiau poblogaeth y tu allan i glinigau arferol.

### Haen 3

- Gwasanaethau arbenigol a gomisiynir ar gyfer ardaloedd yn seiliedig ar niferoedd uchel a chymhlethdod anghenion grwpiau sy’n cael eu hallgau yn draddodiadol.

- Sefydlu clinigau amgen.

- Dylid ystyried gofal iechyd allgymorth a gofal iechyd symudol wedi'i dargedu.

- Rheoli achosion cymhleth a dull tîm amlddisgyblaethol.

# Atodiad 3: Mapio Gwasanaethau

| | Gwasanaeth digartrefedd | Gwasanaeth i geiswyr lloches / ffoaduriaid | Gwasanaethau ar ôl gadael y carchar | Gwasanaethau gweithwyr rhyw | Gwasanaethau Pobl Roma, Sipsiwn a Theithwyr |
|---|---|---|---|---|---|
| **BIP Aneurin Bevan** | **X** | **X** | | | **X** |
| **BIP Betsi Cadwaladr** | **X** | | | | |
| **BIP Caerdydd a'r Fro** | **X** | **X** | | **X** | |
| **Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg** | **X** | **X** | **X** | **X** | |
| **BIP Hywel Dda** | **X** | **X** | | | **X** |
| **Bwrdd Iechyd Powys** | **X** | **X** | | | **X** |
| **BIP Bae Abertawe** | **X** | **X** | **X** | **X** | |